Doedd hi erioed wedi chwibanu o’r blaen, o beth alla’ i ’i gofio.  Prin ei bod yn canu chwaith, dim ond yn y ffordd hanner-preifat, hanner-cyhoeddus mae rhywun yn ei wneud yn y capel pan taw eich cymydog yn unig sy’n clywed go iawn.  Yn y gynulleidfa yn Gerazim dim ond Hettie Rhiw Dro oedd yn sefyll wrth ei phwys ac roedd hi’n fyddar fel post gan adael i mam ganu i’r Iôr gydag arddeliad llwyr ond mewn llais egwan.

Doedd ’na ddim stesion nac eglwys ar gyfyl y lle yma, a doedd ’na neb i roi croeso i mi chwaith, ond roedd Gwladys wedi dweud mai felly y byddai pethau.  Hel meddyliau wnes i ar y daith, yn enwedig wrth basio ambell le.

Beth o’dd haru fi’n gwastraffu dyddia aur fy mywyd i yn fa’ma efo chi?  ’Nghardyn *equity* i’n gorwadd ’fatha jôc greulon yng ngwaelod fy mhwrs i tra o’n i yn fa’ma yn golchi llestri budur eich twrists o Blackpool a Slough.  Do’n i ddim isio bod yma!  ’Dach chi’n dalld hynna?

Ar brynhawn heulog o Fehefin, swatiai Manon mewn bedd hirgul o gegin gefn â’r drws a’r ffenestr ar gau. ’Roedd y llenni’n hanner cau hefyd, ond drwy’r bwlch rhyngddynt sleifiai digon o oleuni i’w galluogi i drwsio’i ffrog lanhau, yr un a wisgai bob bore wrth godi, yr un a wisgai drwy’’r dydd pan na fyddai ganddi amynedd i ymolchi.

Nid yw mydryddu’r stori yn ddigon, felly, er i’r ymgeisydd lwyddo i wneud hynny yn rhwydd a llyfn, gan gyfleu erchylltra’r llofruddiaeth yn fyw iawn ar y naill law a serennedd hwiangerdd y digweddglo, ar y llaw arall, Canmoled ef am ei fenter.  Ymdaflodd mewn cryn goflaid.

*Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru*
*Caerdydd a'r Cylch 2008*
*Cystadleuaeth y Stori Fer:* ***Gollwng***
*Buddugol: Breision (**Jon Gower**)*

*Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru*
*Caerdydd a'r Cylch 2008*
*Cystadleuaeth y Dyddiadur:* ***Dyddiadur Dynes Ddŵad***
*Buddugol: Neb ond Fi (**John Gruffydd Jones**)*

*Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru*
*Caerdydd a'r Cylch 2008*
*Cystadleuaeth y Monolog:* ***Moment***
*Buddugol: Enlli (**Luned Emyr**)*

*Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru*
*Bro Madog 1987*
*Cystadleuaeth y Stori Fer:* ***Ofn***
*Buddugol: Trysglwyn (**Grace Roberts**)*

*Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru*
*Ynys Môn 1983*
*Cystadleuaeth y Bryddest (Coron):* ***Clymau***
*Beirniadaeth Nesta Wyn Jones*

Yn y gegin 'roedd y croeso a'r clydwch a'r hwyl. Yma, lle 'rwyf yn sefyll rŵan fel pe bawn yn 'bobol ddiarth', ddim yn gwybod beth i'w wneud â mi fy hun, 'Yli,' meddai Mam, 'gwthia rai o'r petha'na i wneud lle i ti dy hun ar y setl.' Dyma wneud fy hun yn belen fach dwt yng nghornel y setl, o'r ffordd.

---

Bu cymaint â deunaw ar hugain wrthi yn yn y gystadleuaeth hon a rhaid dweud ar unwaith...ei bod yn gwbl amhosibl o fewn cyfyngiadau cyfrol y *Beirniadaethau* sylwi'n fanwl ar bob un ohonynt onid ê byddai'r feirniadaeth ei hun yn hawlio rhan helaeth o'r gyfrol. Felly, rhaid didoli.

---

Eisteddai ar ymyl y galeri yn glap o dduwch, fel brân dyddyn ar gangen. Esgidiau du a gwaltas lydan iddynt, sgert hirlaes ddu wedi gwisgo braidd, a siôl wedi ei gwau gartref dros yr ysgwyddau crwm, ac i wneud yn sicr na lithrai'r siôl, clasp anferth a llun pen ceffyl arno yn ei chau gylch y gwddf main.

---

'Sbectol weldo Tad-cu yw honna," meddai â llais fel triagl. 'Dod hi nôl lle o'dd hi, gw'boi.'
Ond Sal, mae hwn yn cŵl!' daeth yr ymateb cynhyrfus. 'O'dd Tad-cu yn *frogman?* Ti'n gallu nofio dan y môr yn hwn, *gŵ-gŵ-gŵ'* a herciodd ar draws y stafell gan chwifio ei ddwylo fel petaent yn ei dynnu trwy ddyfnder yr eigion.

---

I gorlan yr anwybodus yr wyf innau'n perthyn, ond 'fynnai neb i'r rheini sydd wedi osgoi'r erchylltra beidio â bod yn rhan o'r coffáu. Braint, fellly, oedd ymweld rai blynyddoedd yn ôl â bedd Hedd Wyn, a hwnnw ar ben rhes yng nghanol rhesi o feini marmor i'r miloedd a gollodd eu bywydau yn y Rhyfel Mawr.

---

*Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru*
*Ynys Môn 1983*
*Cystadleuaeth y Stori Fer:* ***Rhywbeth Bach i Gofio***
*Buddugol: Dyffryn Adda (**Myfanwy Bennet Jones**)*

*Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru*
*Ynys Môn 1983*
*Cystadleuaeth Ysgrif Bortread*
*Beirniadaeth D. Tecwyn Lloyd*

*Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru*
*Caerdydd 1978*
*Cystadleuaeth y Stori Fer:* ***Cydymdeimlo***
*Buddugol: Erw'r Grug (**John Gruffudd Jones**)*

*Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru*
*Sir Gâr 2014*
*Cystadleuaeth y Stori Fer:* ***Sbectol***
*Buddugol: Gofannon (**Robat Powell**)*

*Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru*
*Sir Gâr 2014*
*Cystadleuaeth yr Ysgrif:* ***Canrif***
*Buddugol: Pabi (**Ellis Roberts**)*

**Ar y pryd, digon oedd i mi gyfyngu fy mro i'r fodfedd sgwâr o amgylch y clos a'r ydlan, wrth i'r coese bychain ymestyn. Ceid digon i ryfeddu ato. Clegar swnllyd y gwydde yn y pown yn y pen pellaf yn fygythiad am y dysgais y bydden nhw ar amrantiad yn codi'n un fflyd â'u hadenydd ar led gan ruthro ar draws y clos.**

---

**Mor gyfoethog yw'r atgofion, am ddawnsfeydd bywiog o oes y 'Charleston' i oes y roc a rôl, am ddramâu dirifedi, cyngherddau mawreddog, nosweithiau llawen a seremonïau coroni breninesau'r carnifál. Ie, bwrlwm parhaus a rhywbeth yno at ddant pob un o'r trigolion. Dyna oedd bwriad y lle, man i gwrdd â ffrindiau, canolfan i gymdeithasu ynddi ac i fwynhau'r gyfeillach, meithrin perfformio i gannoedd ar gannoedd o blant ifainc Port.**

---

**Roedd yn argoeli'n dda – pecyn swmpas yn cyrraed yn y post ac, o agor yr amlen, gwirioni o ganfod fod cymaint â 27 wedi rhoi cynnig ar y gystadleuaeth...Ond – ac rwy'n siŵr eich bod wedi teimlo'r hen air bach hwnnw'n ysu am gael gwthio'i ffordd rhwng y llinellau o'r dechrau – gwan yn gyffredinol oedd y cynnyrch er gwaethaf y swmp papur.**

---

**Dw i wedi derbyn gorchymyn i adael y fflat o fewn y mis. Mae Boris wedi llwyddo i rewi fy asedau yn y banc, mae ganddo fys ymhob pei a thrwyn ym mhotes pawb. Dw i'n pacio'r ychydig bach o eiddo sy'n dal ar ôl gen i yma – ychydig o ddillad, llun ohonon ni'n tri, un o hoff flancedi Cadi a adawodd ar ei hôl yn eu brys, ac yna dw i'n dechrau rhedeg.**

---

**'Sut ma Lisa?' medda fo.**
**'Mae hi'n well, diolch,' medda Nain, 'ond mi fydd hi i mewn am dipyn eto ar ôl yr *op*.' 'Dda bod hi'n wylia ysgol,' medda hogyn drws nesa, ond atebodd Nain ddim.**
**'Týd, Catrin,' medda Nain, 'sŵp sy'na i ginio.'**

---

*Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru*
*Sir Gâr 2014*
*Cystadleuaeth y Portread:* ***Cerdded Trwy Hogle'r Da***
*Buddugol: Shanghai (**Hefin Wyn**)*

*Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru*
*Sir Gâr 2014*
*Cystadleuaeth Erthygl Papur Bro:* ***Rhamant y Gorffennol***
*Buddugol: Treflys (**Helen O'Shea Ellis**)*

*Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru*
*Maldwyn a'r Gororau 2015*
*Cystadleuaeth y Stori Fer*
*Beirniadaeth Annes Glyn*

*Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru*
*Maldwyn a'r Gororau 2015*
*Cystadleuaeth Stori Ffantasi:* ***Man Gwyn Man Draw***
*Buddugol: Tincar Saffrwm (**Leusa Fflur Llewelyn**)*

*Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru*
*Maldwyn a'r Gororau 2015*
*Cystadleuaeth Stori Fer ar gyfer Pobl Ifanc:* ***Byblgym***
*Buddugol: Di-lais (**Rhian Owen**)*

'Tydyn nhw'm yn licio twrw.' Nesaodd yr hen ŵr ati. 'Yli Taid. Ma' nhw'n deud "helo" wrtha ti.' Edrychodd yntau ar y goeden, ac o weld dim o'i flaen, ceisiodd ei chymell, 'Ty'd rŵan.' Ond wrth i'w thaid droi ei gefn arnynt, cythrodd Eirlys am ei law, a phlethu ei bysedd am ei fysedd yntau. 'Ma' nhw'n deud "helo".'
Edrychodd eto, ac fe'u gwelodd. Y rheini nad oedd o wedi eu gweld ers bron i bedwar ugain mlynedd.

---

Ni chofiaf yn union pa adeg o'r flwyddyn oedd hi, ond roedd yn wanwyn bid siŵr oherwydd ei bod yn amser y golchi a'r cneifio. Gwanwyn hwyr, efallai. Honno oedd y flwyddyn anhygoel pan ddechreuodd y ddraenen wen flaguro yn y sietyn yn niwedd Ionawr gan mor dyner oedd y gaea' ar lawr y dyffryn.

---

Deil angladde'n achlysuron pwysig yn y fro. Dyna pryd y daw llawer ohonom i gysylltiad â'n gilydd. Ni wnaf sôn am yr un angladd yn benodol. Mae'n siŵr mai mewn angladd y cawsom ninne sgwrs â'n gilydd ddiwethaf. Hwyrach nad yw angladde mewn capeli mor gyson ag y buon nhw. A phan geir un, mae'n debyg mai teyrnged a geir i'r ymadawedig yn hytrach na phregeth angladdol.

---

Haia Carys,
Na, dw i'n bendant weles i ti allan yn y Rhyl. Mi oeddem yn y clwb nos y tu ôl i westy'r Marina. O'n i'n chwarae mewn band gyda Robin Plas Newydd a Llew Roberts. Fi oedd yn canu a chwarae'r gitâr. Dw i'n cofio dy fod yn gwisgo *Doc Martins* pinc a menig hefo gwe pry cop arnynt. O'n i'n fwriadol o brynu diod i ti ar ddiwedd y gig ond pryd ddes i o du cefn i'r llwyfan, roeddet ti wedi diflannu.

---

Stemiodd Mary Ann i mewn i'r gegin ac ymosododd ar unwaith:
"Faint o stiward wyt ti Wil Beynon i adel i'r tacla 'na yn y gwaith drin Now acw fel pwt bach o brentis?"
"Os mai cyfeirio at y ffaith bod Now wedi cael stopio'n y gwaith 'rydach chi Mrs James, yna nid ato i sy' eisia' ichi ddwad".

*Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru*
*Maldwyn a'r Gororau 2015*
*Cystadleuaeth Y Darnau Llên Microblog:* ***Y Bobl Bach***
*Buddugol: Celyn (****Gareth Evans-Jones****)*

*Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru*
*Maldwyn a'r Gororau 2015*
*Cystadleuaeth Yr Ysgrif:* ***Dafydd***
*Buddugol: Llidiart yr ôg (****Llŷr Gruffydd****)*

*Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru*
*Maldwyn a'r Gororau 2015*
*Cystadleuaeth y Dyddiadur*
*Buddugol: Carn Bica (****Hefin Wyn****)*

*Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru*
*Maldwyn a'r Gororau 2015*
*Cystadleuaeth Carwriaeth drwy e-bost*
*Buddugol: Medi (****Rebecca Elizabeth Roberts****)*

*Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru*
*Abertawe a'r Cylch 1964t*
*Cystadleuaeth Y Stori Ddigri:* ***Now Mary Ann***
*Buddugol: Ynys Gifftan (****Y Parch. Geraint Wynne Parry****)*

**Penderfynais ar y cychwyn mai'r hyn a ddisgywlid yn y gystadleuaeth hon oedd detholiad o ysgrifau yn yr ystyr "lenyddol" arferol a roir i'r gair "ysgrif". Disgywliwn gasgliad a wnâi lyfr o ryw gant a hanner i ddau gant o dudalennau, yn cynnwys rhagair byr i egluro dull y dewis, rhagymadrodd ar yr ysgrif fel ffurf lenyddol (ynghyd â llyfryddiaeth fer, efallai), rhestr o'r ysgrifau a'r awduron ar ffurf cynhwysiad neu fynegai, gan nodi'r ffynonellau, a'r cwbl yn barod i'r wasg heb fawr o waith cymhennu arno.**

*Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru*
*Abertawe a'r Cylch 1964t*
*Cystadleuaeth Llyfrau Ysgol:* ***Detholiad o Ysgrifau***
*Beirniadaeth H.J. Hughes*